CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 3108 (Cy.287)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Yn unol ag adrannau 13(1) a (6) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 ("Deddf 1988"), mae gan y Cynulliad y pŵer i ragnodi'r bwydydd Cychwyn Iach sydd ar gael fel rhan o'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru.

Mae'r diffiniad o fwyd yn adran 13(11) o Ddeddf 1988 yn cynnwys fitaminau.

Mae rheoliad 2 yn darparu bod y bwyd Cychwyn Iach o ran gweithredu'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru fel a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 3 yn darparu disgrifiad o fitaminau Cychwyn Iach a fydd yn gymwys o ran gweithredu'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 27 Tachwedd 2006.

Mae'r cynllun Cychwyn Iach yn gynllun er budd menywod beichiog, mamau a phlant cymwys a sefydlwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygio) 2005, fel y'u diwygiwyd.

Paratowyd Arfarniad Rheoliadol ar yr effaith y bydd y Rheoliadau hyn yn ei chael ar gostau busnes yn unol ag adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac fe'i gosodwyd yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 3108 (W.287)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Healthy Start Scheme (Description of Healthy Start Food) (Wales) Regulations 2006

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of these Regulations)

Pursuant to section 13(1) and (6) of the Social Security Act 1988 ("the 1988 Act"), the Assembly has the power to prescribe the Healthy Start foods that are available as part of the Healthy Start scheme in Wales.

The definition of food in section 13(11) of the 1988 Act includes vitamins.

Regulation 2 provides that the Healthy Start food in relation to the operation of the Healthy Start scheme in Wales is as set out in the Schedule to these Regulations.

Regulation 3 provides the description of Healthy Start vitamins that will apply in relation to the operation of the Healthy Start Scheme in Wales.

The Regulations come into force on 27 November 2006.

The Healthy Start scheme is a scheme for the benefit of qualifying pregnant women, mothers and children set up by the Secretary of State in the Healthy Start Scheme and Welfare Food (Amendment) Regulations 2005, as amended.

A Regulatory Appraisal of the effect these Regulations have on business costs has been prepared pursuant to section 65 of the Government of Wales Act 1998 and placed in the Library of National Assembly for Wales.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 3108 (Cy.287)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	*22 Tachwedd 2006*
Yn dod i rym	*27 Tachwedd 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 13(1) a (6) o Ddeddf Safonau Gofal 1988(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 27 Tachwedd 2006.

(2) Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "buddiolwr" ("*beneficiary*") yw person sydd â hawl i fudd-dal yn unol â rheoliadau 3 a 4 o'r prif reoliadau;

ystyr "bwyd Cychwyn Iach" ("*Healthy Start food*") yw'r bwyd a bennir yng Ngholofn 1 (categori o fwyd) yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn fel y'i goleddfir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

ystyr "cynllun Cychwyn Iach" ("*Healthy Start scheme*") yw'r cynllun a sefydlwyd gan y prif Reoliadau;

ystyr "fitaminau Cychwyn Iach" ("*Healthy Start vitamins*") yw'r fitaminau a bennir yn rheoliad 3; ac

(**1**) 1988 p.7. Amnewidiwyd adran 13 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1988 gan adran 185 o Ddeddf Iechyd a Gofal cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43).

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 3108 (W.287)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Healthy Start Scheme (Description of Healthy Start Food) (Wales) Regulations 2006

Made	*22 November 2006*
Coming into force	*27 November 2006*

The National Assembly for Wales in exercise of the powers conferred by section 13(1) and (6) of the Social Security Act 1988(**1**), hereby makes the following Regulations:

Citation, commencement, interpretation and application

1.-(1) These Regulations are called the Healthy Start Scheme (Description of Healthy Start Food) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 27 November 2006.

(2) In these Regulations:

"beneficiary" ("*buddiolwr*") means a person entitled to benefit pursuant to regulations 3 and 4 of the principal Regulations;

"Healthy Start food" ("*bwyd Cychwyn Iach*") means the food specified in Column 1 (category of food) of the Schedule to these Regulations as qualified in Column 2 of that Schedule;

"Healthy Start vitamins" ("*fitaminau Cychwyn Iach*") means the vitamins specified in regulation 3

"Healthy Start scheme" ("*cynllun Cychwyn Iach*") means the scheme established by the principal Regulations; and

(**1**) 1988 c.7. Section 13 of the Social Security Act 1988 was substituted by section 185 of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (c. 43).

ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygio) 2005(**1**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

2. Nodir bwyd Cychwyn Iach o ran gweithredu'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru fel a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

3. Tabledi neu ddiferion fitamin sy'n cynnwys fitaminau sy'n briodol i'r buddiolwr sy'n eu cael yw fitaminau Cychwyn Iach o ran gweithredu'r cynllun Cychwyn Iach yng Nghymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

22 Tachwedd 2006

"the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the Healthy Start Scheme and Welfare Food (Amendment) Regulations 2005(**1**).

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

2. Healthy Start food in relation to the operation of the Healthy Start scheme in Wales is as set out in the Schedule to these Regulations.

3. Healthy Start vitamins in relation to the operation of the Healthy Start scheme in Wales are tablets or vitamin drops containing vitamins appropriate for the beneficiary who receives them.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**2**).

22 November 2006

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer for National Assembly

(**1**) O.S. 2005/3262, fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/589 a Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach a Bwyd Lles (Diwygio Rhif 2) 2006 (OS 2006/2818).

(**2**) 1998 p.38.

(**1**) S.I. 2005/3262, as amended by S.I. 2006/589 and the Healthy Start Scheme and Welfare Food (Amendment No. 2) Regulations 2006 (SI 2006/2818).

(**2**) 1998 c.38.

YR ATODLEN

Categori o fwyd	*Goleddfiad*
Llaeth	Llaeth gwartheg hylif, gan gynnwys mathau hir-oes, pastiwreiddiedig, neu fathau a driniwyd ag uwch-wres, ond nid llaeth yr ychwanegwyd cemegion, fitaminau, cyflasau neu liwiau iddo neu laeth y'u tynnwyd oddi wrtho.
Fformiwla babanod	Bwyd ac iddo sylfaen o laeth gwartheg ac a fwriedir yn benodol i'w ddefnyddio'n faethol gan fabanod sydd mewn iechyd da ac sy'n diwallu ar ei ben ei hun anghenion maethol y babanod hynny.
Ffrwythau a llysiau ffres	Ffrwythau a llysiau ffres gan gynnwys ffrwythau a llysiau rhydd, wedi'u rhagbacio, cyfain, wedi'u tafellu, wedi'u torri, neu wedi'u cymysgu, ond nid ffrwythau na llysiau yr ychwanegwyd halen, siwgr, perlysiau neu unrhyw gyflasyn arall iddynt.

SCHEDULE

Category of food	*Qualification*
Milk	Liquid cow's milk, including long-life, pasteurised or ultra heat treated varieties of milk, but not milk to or from which chemicals, vitamins, flavours or colours have been added or removed.
Infant formula	A food based on cow's milk intended for particular nutritional use from birth by infants in good health, and satisfying by itself the nutritional requirements of such infants.
Fresh fruit and vegetables	Fresh fruit and vegetables including loose, pre-packed, whole, sliced, chopped or mixed fruit or vegetables, but not fruit or vegetables to which salt, sugar, herbs or other flavouring has been added.

©℗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W435/11/06 ON